

Llawenydd gyda gorthrwm

“... yn hytrach cawsom ein gorthrymu ym mhob ffordd – brwydrau oddi allan ac ofnau oddi mewn.” (adn. 5)

Beth am ddarllen 2 Corinthiaid 7:1–16 ac yna myfyrio

Ddoe, buom yn sôn am fyw rhwng dwy ardd berffaith, gardd Duw yn Eden a gardd Duw yn y paradwys sydd o'n blaen. Mae'r ardd yr ydym yn byw ynddi ar hyn o bryd yn ardd o dan felltith, ac er ei bod yn brydferth ar brydiau, mae yna ddigon o ddrain a mieri o'n cwmpas.

Cawsom ein creu ar gyfer gardd wahanol iawn. Ni fwriadodd Duw i ni orfod brwydro gydag afiechyd, brwydro gydag euogrwydd, brwydro gydag iselder, brwydro gyda ffaith marwolaeth. Mae'n wir dweud fod yr hyn a gyflawnodd Iesu drosom ar y groes, yr hyn a seliwyd trwy ei atgyfodiad a'i esgyniad, yn dwyn i ni faddeuant o'n pechodau, a'r addewid am yr Ysbryd Glân i'n cynorthwyo a'n cysuro wrth i ni deithio drwy'r byd. Ond, er hyn i gyd, mae'r byd yr ydym yn byw ynddo wedi syrthio. Mae'n fyd na chrewyd ni ar ei gyfer. Dyna pam, hyd yn oed yn ein llawenydd, yr ydym yn profi mesur o orthrwm. Yr hyn yr wyf yn ei olygu wrth ddweud hyn yw fod ein munudau mwyaf llawen wedi eu plethu gyda mesur o dristwch sydd yn deillio o'r ffaith ein bod mewn awyrgylch annaturiol, yn annaturiol yn yr ystyr ei fod yn lle na fwriadodd Duw i ni fod. Rhaid i ni ddeall y gwirionedd yma neu fe'n hwynebir yn fuan gan siomiant. Mae'n debyg fod Oswald Chambers yn dweud y gwir pan ddywedodd fod bywyd yn fwy o drasiedi nag o drefn. Mae'r bywyd yma yn fywyd mewn byd anodd, byd sydd yn parhau i ddioddef o ganlyniad y cwmp. Mae peidio â chydabod na deall hyn yn peri y bydd ein disgwyliadau ni yn uwch nag y dylent fod. Ymhellach, bydd dyfnder ein siom yn ddyfnach nag y dylai fod.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Rhuf. 8:18–27; 15:4; Heb. 6:18

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth ddywed Paul am y greadigaeth?
2. Beth mae yn ei roi fel ateb i hyn?

Gweddi

O Dad, unwaith eto, yr wyf yn gofyn i ti am gymorth i wynebu'r byd gyda realaeth. Rwy'n gofyn i ti fy helpu i ddeall nad yw y llawenydd yr wyt yn ei roi i mi yn difa pob siom. Ond, yr wyt am fy nghynorthwyo i fyw mewn llawenydd, wyneb yn wyneb â siom ac anhawster. Arglwydd Iesu, cynorthwya fi. Amen.